Nics Nain

Roedd rhaid i ddisgyblion blwyddyn 5/6 godi'n gynnar iawn un bore i fynd ar daith i Gaerdydd. Roeddent wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yn y rhaglen deledu 'Nics Nain'. Cafwyd cystadlu brwd a dychwelodd Mr John a'r plant yn ôl yn flinedig ond yn hapus. Daethant yn ail yn y gystadleuaeth a derbyn rhodd o £300 am eu hymdrechion. Yn ogystal cafodd pawb wledd o ginio a chrys-T yr un - diolch i dîm cynhyrchu Nics Nain. Cewch eu gweld ar y teledu cyn bo hir.

Ymweliad â San Ffagan

Codi'n gynnar oedd hanes Mrs Mitchell a phlantos blwyddyn 4 hefyd yn ddiweddar. Roeddent ddigon lwcus i rannu bws blwyddyn 5/6 i Gaerdydd. Treulio'r dydd yn crwydro Amgueddfa Werin Cymru yn San Ffagan fu eu hanes ac roedd yr ymweliad yn cyd-fynd â thema'r tymor, sef Cartrefi. Criw blinedig iawn ddychwelodd i'r ysgol fore trannoeth ond mae'n debyg fod pawb wedi mwynhau'r stop am sglods yng Nghaerfyrddin.

Pêl-droed

Ers dechrau'r tymor mae disgyblion dosbarth 2 (blwyddyn 1 a 2) wedi bod yn edrych ymlaen at brynhawn dydd Mawrth. Y rheswm am yr holl gyffro oedd ymweliadau wythnosol Mr Matthew Bishop, Swyddog Datblygu Pêl-droed. Cafodd y plant lawer o fwynhad yn ymarfer eu sgiliau a braf oedd gweld pawb yn cymryd rhan yn y sbort. Edrychwn ymlaen i groesawu Mr Bishop yn ôl atom cyn hir a diolchwn iddo am ennyn ein brwdfrydedd tuag at pêl-droed.